Adroddiad i:	Pwyllgor Llywio'r Gymraeg
Dyddiad y cyfarfod:	5 Gorffennaf 2023
Aelod Arweiniol/Swyddog	Cynghorydd Emrys Wynne/ Gary Williams, Cyfarwyddwr Corfforaethol
Awdur yr adroddiad:	Manon Celyn Roberts, Swyddog Iaith Gymraeg
Teitl:	Adroddiad Monitro Blynyddol y Gymraeg

1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

1.1 Adroddiad Montro Iaith Gymraeg blynyddol y Cyngor

2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

2.1 I drafod a chytuno ar gynnwys yr adroddiad Monitro Iaith Gymraeg blynyddol ar gyfer 2022/23, sydd yn ofyniad statudol.

3. Beth yw'r argymhellion?

3.1 I gytuno ar gynnwys yr adroddiad.

4. Manylion yr adroddiad

4.1 Mae disgwyl i'r Cyngor gynhyrchu adroddiad blynyddol ar ei wefan, a disgwylir i'r adroddiad fanylu ar y cynnydd a wnaed gyda'r Iaith Gymraeg.

4.2 Mae hi'n ddyletswydd statudol, yn unol â'r Safonau, i'r Cyngor gydymffurfio drwy gyhoeddi adroddiad.

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Gymraeg. This document is available in Welsh.

4.3 Mae'r adroddiad yn adlewyrchu ymrwymiad y Cyngor i weithio tuag at gynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg yn y sir ac er mwyn cyfrannu'n bositif tuag at yr ymgyrch genedlaethol i gynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg i filiwn erbyn 2050.

4.4 Mae'r adroddiad yn amlinellu cyrhaeddiadau a pherfformiad yn erbyn dangosyddion Iaith Gymraeg yr ydym wedi eu hadrodd yn eu herbyn; camau a gymerwyd gan y Cyngor i gydymffurfio â'r Safonau a gwybodaeth ar lefelau ieithyddol staff.

4.5 Mae'r Cyngor hefyd yn adrodd ar gynnydd gyda'r fframwaith 'Mwy Na Geiriau' a Chynllun Strategol y Gymreg mewn Addysg y Cyngor.

5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Cynllun Corfforaethol 2022 i 2027: Y Sir Ddinbych a Garem?

5.1 Mae'r penderfyniad yn cyfrannu at ddatblygiad Sir Ddinbych â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu sy'n rhan o amcanion allweddol Cynllun Corfforaethol y Cyngor 2022-27.

6. Beth fydd y gost a sut y bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?

6.1 Does dim cyllid benodol ar gyfer yr Iaith Gymraeg. Daw unrhyw gostau yn syth o gyllidebau sydd eisoes yn bodoli.

7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o Effaith ar Les?

7.1 Er nad oes angen Asesiad o'r Effaith ar Les ffurfiol ar gyfer yr adroddiad hwn, mae'n werth nodi rhai o'r manteision allweddol mewn perthynas â Deddf Lles a Chenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a'r Safonau Iaith Gymraeg.

7.2 Un o elfennau allweddol Ddeddf Lles a Chenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yw: "Cymru â diwylliant bywiog ac iaith Gymraeg ffyniannus: Cymdeithas sy'n hybu ac yn diogelu diwylliant, treftadaeth a'r Gymraeg, ac sy'n annog pobl i gymryd rhan yn celfyddydau, chwaraeon a hamdden."

7.3 Mae gan y Cyngor rôl hefyd, trwy ei Safonau Iaith Gymraeg, i hyrwyddo cyfleoedd i gymunedau lleol gymryd rhan mewn gweithgareddau Iaith Gymraeg.

8. Pa ymgynghoriadau a gynhaliwyd gyda Chraffu ac eraill?

Ymgynghorwyd ag Aelod Arweiniol y Cabinet dros yr Iaith Gymraeg a'r Cyfarwyddwr Corfforaethol Arweiniol.

9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid

10. Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?

8.1 Y prif risg yw enw da'r awdurdod gan ein bod eisoes wedi gwneud ymrwymiad yn y Strategaeth Iaith Gymraeg a thrwy'r Safonau Iaith Gymraeg I hyrwyddo defnydd o'r iaith yn y gweithle ac mewn cymunedau.

11. Pŵer i wneud y Penderfyniad

Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011